# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC (3)-15-08)

Dyddiad: 10 Mehefin 2008
Amser : 8.15am
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd

### Cynnwys

Cyfarfu'r pwyllgor ar 10 Mehefin 2008. Roedd yr Aelodau pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Dr Dai Lloyd AC, Eleanor Burnham AC, Andrew RT Davies AC ac Alun Davies AC. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Irene James AC. Roedd Sandy Mewies AC yn dirprwyo ar ei rhan.

Mae adroddiadau'r pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

Offerynnau ac offerynnau drafft y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol).

### SLC162 - Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) 2008.

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 16 Mai 2008. Fe'u gosodwyd ar" "20 Mai 2008. Yn dod i rym ar 13 Mehefin 2008. Ceir Adroddiad y pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 ar yr Offerynnau Statudol sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol) yn Atodiad 1 i'r Adroddiad hwn

### Eitemau eraill o fusnes

Nododd yr Aelodau'r esboniad o ymateb y Llywodraeth i adroddiad y pwyllgor ar SLC158 - Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2008 (cafodd slc158 ei ystyried yn y cyfarfod ar 3 Mehefin 2008 ac roedd ymateb y Llywodraeth yn cynnwys anghysondeb rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg). Mae'r Llywodraeth wedi esbonio y caiff y Rheoliadau eu diwygio o fewn chwe mis yn hytrach na chael eu dirymu a'u hail-wneud. Penderfynodd y pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(ix) er mwyn ystyried eitem 4 ar yr agenda ar ehangu gwaith craffu'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth gan y pwyllgor. Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
10 Mehefin 2008

## Atodiad 1

## Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-15-08)

### SLC162

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

### Teitl: Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) 2008

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân newidiadau i Reoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2008.

### Gweithdrefn: Negyddol

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2. Mae diffiniad "Rheoliadau 2008" yn nhestun Cymraeg rheoliad 3 yn ddiffygiol. Yn lle cyfeirio tuag at "Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2008", mae rheoliad 3 yn diffinio "Rheoliadau 2008" fel "Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2008". Yn ogystal, gan fod testun Saesneg y rheoliad yn gywir, mae anghysondeb yn bodoli rhwng testun Cymraeg a thestun Saesneg rheoliad 3. Dylid cywiro'r nam yn nhestun Cymraeg rheoliad 3 cyn gynted ag y bo modd. [Rheol Sefydlog 15.2 (vi) a (vii)]

### Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-

Mae'r Llywodraeth wedi nodi ei bod yn derbyn y pwynt adrodd a grybwyllir uchod ond nid yw'n bwriadu cymryd unrhyw gamau ar hyn o bryd gan fod y Rheoliadau sy'n ymwneud â'r flwyddyn academaidd 2009/10 yn mynd i gael eu gwneud yn y 6 mis nesaf. Gellir

cynnwys y diwygiad yn y Rheoliadau hynny.

Cynghorwyr Cyfreithiol
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
10 Mehefin 2008